

Yr Amliadur:
Rhestri Amllder ar gyfer Cymraeg Cyfoes
Frequency Lists for Contemporary Welsh

D. Knight, S. Morris, B. Tovey-Walsh,
T. Fitzpatrick, & L. Anthony



Prifysgol Caerdydd | University of Cardiff

2020

I ddyfynnu *Yr Amliadur*:

Knight, D., Morris, S., Tovey-Walsh, B., Fitzpatrick, T. ac Anthony, L. (2020). *Yr Amliadur: Rhestrï Amllder ar gyfer Cymraeg Cyfoes*. Prifysgol Caerdydd, <http://doi.org/10.17035/d.2020.0120164107>

To cite *Yr Amliadur*:

Knight, D., Morris, S., Tovey-Walsh, B., Fitzpatrick, T. and Anthony, L. (2020). *Yr Amliadur: Frequency lists for contemporary Welsh*. Cardiff University, <http://doi.org/10.17035/d.2020.0120164107>

Cynnwys | Contents

1	Cefndir Background	1
1.1	CorCenCC: Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes	1
1.2	CorCenCC: The National Corpus of Contemporary Welsh . . .	2
2	Rhagarweiniad Introduction	3
2.1	Nodiadau rhagarweiniol ar y rhestrï amllder	3
	Y rhestrï amllder ar sail geiriau	5
	Y rhestrï amllder ar sail lemâu	5
2.2	Introductory notes on the frequency lists	6
	The word frequency lists	7
	The lemma frequency lists	8
3	Dehongli'r Rhestrï Interpreting the Lists	9
3.1	Dehongli'r rhestrï: Cyfyngiadau posibl a nodiadau rhybyddiol .	9
	Lemateiddio	9
	Prosesu data	10
	Ffurfiâu ansafonol	12
	Ystyriaethau eraill	14
3.2	Interpreting the lists: Potential limitations and cautionary notes	15
	Lemmatization	15
	Data processing	16
	Non-standard forms	17
	Other considerations	20
4	Llyfryddiaeth Bibliography	21
	Atodiadau Appendices	22

Atodiad Appendix A Rhannau ymadrodd CorCenCC	
The CorCenCC part-of-speech tagset	22
Atodiad Appendix B Trefniant yn ôl yr wyddor Gymraeg Welsh alphabetical ordering	44
Atodiad Appendix C Rhestrï amllder Frequency lists	45
Cyflwyniad	45
Introduction	48
C.1 100 gair uchaf yn CorCenCC	
Top 100 words in CorCenCC	51
C.2 1000 gair uchaf yn CorCenCC (rhestr yn ôl yr wyddor)	
Top 1000 words in CorCenCC (alphabetic list)	59
C.3 100 lema uchaf yn CorCenCC	
Top 100 lemmas in CorCenCC	72
C.4 1000 lema uchaf yn CorCenCC (rhestr yn ôl yr wyddor)	
Top 1000 lemmas in CorCenCC (alphabetic list)	80
C.5 100 lema uchaf yn CorCenCC (geiriau dosbarth agored yn unig)	
Top 100 lemmas in CorCenCC (open-class words only)	93
C.6 1000 gair uchaf yn CorCenCC (geiriau dosbarth agored yn unig; rhestr yn ôl yr wyddor)	
Top 1000 lemmas in CorCenCC (open-class words only; alphabetic list)	98
C.7 500 enw uchaf yn CorCenCC	
Top 500 noun lemmas in CorCenCC	111

C.8	500 berf uchaf yn CorCenCC	
	Top 500 verb lemmas in CorCenCC	118
C.9	500 ansoddair uchaf yn CorCenCC	
	Top 500 adjective lemmas in CorCenCC	125
C.10	50 adferf uchaf yn CorCenCC	
	Top 50 adverb lemmas in CorCenCC	132
C.11	50 ebychiad uchaf yn CorCenCC	
	Top 50 interjection lemmas in CorCenCC	133
C.12	100 gair dosbarth agored uchaf yng nghydran ysgrifenedig Cor- CenCC	
	Top 100 open-class words in the written component of Cor- CenCC	134
C.13	100 gair dosbarth agored uchaf yng nghydran llafar CorCenCC	
	Top 100 open-class words in the spoken component of Cor- CenCC	142
C.14	100 gair dosbarth agored uchaf yng nghydran electronig Cor- CenCC	
	Top 100 open-class words in the electronic component of Cor- CenCC	150

1 Cefndir | Background

1.1 CorCenCC: Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes

Mae corpws CorCenCC yn cynnwys 14,338,149 o docynnau (tua 11.2 miliwn o eiriau) o ffynonellau Cymraeg ysgrifenedig, llafar ac electronig (testunau digidol, ar-lein) a dynnwyd o amrywiaeth o genres, amrywiadau iaith (rhanbarthol a chymdeithasol), a chyd-destunau. Mae cyfranwyr CorCenCC yn cynrychioli'r hanner miliwn o siaradwyr Cymraeg yn y wlad. Prosiect cymunedol oedd creu CorCenCC a roddodd gyfle i ddefnyddwyr y Gymraeg fod yn rhagweithiol wrth gyfrannu at adnodd Cymraeg sy'n adlewyrchu sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd.

Er mwyn sicrhau bod CorCenCC mor gynrychiadol o Gymraeg cyfoes â phosibl, cynlluniodd tîm y prosiect fframwaith samplu pwrpasol. Casglwyd dyfyniadau o ffynonellau gan gynnwys, er enghraifft, cyfnodolion, negeseuon e-bost, pregethau, arwyddion ffordd, rhaglenni teledu, cyfarfodydd, cylchgronau, a llyfrau, a thrwy ap torfoli penodol (gw: <https://www.corcencc.cymru/ap/>) roedd modd i siaradwyr Cymraeg yn y gymuned recordio a lanlwytho samplau o'u defnydd eu hunain o'r iaith i'r corpws. Felly, mae'r corpws a gyhoeddwyd yn cynnwys data gan siaradwyr Cymraeg o bob math o gefndir, gallu, a chyd-destun, gan gipio sut mae'r Gymraeg wir yn cael ei defnyddio ar draws y wlad heddiw. I ddod o hyd i wybodaeth fanwl am brosiect CorCenCC, ewch i <https://www.corcencc.cymru>.

Mae'r data yn CorCenCC yn cynrychioli amrywiaeth eang o gyd-destunau, genres a thestunau. Cyn belled ag y bo modd, cafodd y data eu hanonymeddio gan ddefnyddio cyfuniad o dechnegau â llaw ac wedi'u hawtomeiddio, a'u tagio'n llawn o ran categorïau rhan ymadrodd (RhY) a semantig. Cyflawn-

wyd y tagio RhY a semantig gan ddefnyddio offer CyTag (Neale, Donnelly, Watkins, & Knight, 2018) a CySemTag (Piao, Rayson, Knight, & Watkins, 2018; Piao, Rayson, Knight, Watkins, & Donnelly, 2017) sydd ar gael ar wefan GitHub CorCenCC: <https://github.com/CorCenCC>.

Cyllidwyd yr ymchwil y seiliwyd y set ddata yma, yr offer meddalwedd cysylltiedig, a'r adnoddau corpws ar-lein arni gan Gyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol y DU (ESRC) a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) fel prosiect Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes: Dull cymunedol o greu corpws ieithyddol (Rhif Grant ES/M011348/1).

1.2 CorCenCC: The National Corpus of Contemporary Welsh

The CorCenCC corpus contains 14,338,149 tokens (circa 11.2 million words) from written, spoken and electronic (online, digital texts) Welsh language sources, taken from a range of genres, language varieties (regional and social), and contexts. The contributors to CorCenCC are representative of the over half a million Welsh speakers in the country. The creation of CorCenCC was a community-driven project, which offered users of Welsh an opportunity to be proactive in contributing to a Welsh language resource that reflects how Welsh is currently used.

To make CorCenCC as representative of contemporary Welsh as possible, the project team designed a bespoke sampling framework. Extracts were collected from sources including, for example, journals, emails, sermons, road signs, TV programmes, meetings, magazines and books. Conversations were recorded by the research team, and a specially designed crowdsourcing app (see: <https://www.corcenc.org/app/>) enabled Welsh speakers in the community to record and upload samples of their own language use to the corpus. The

published corpus therefore contains data from Welsh speakers from all kinds of backgrounds, abilities and contexts, capturing how Welsh is truly used today across the country. For detailed information about the CorCenCC project, visit <https://www.corcenc.org>.

The data in CorCenCC represents a wide range of contexts, genres and topics. This data has, as far as possible, been anonymised using a combination of manual and automated techniques, and has been fully tagged in terms of part-of-speech (POS) and semantic categories. The POS and semantic tagging was carried out using the CyTag (Neale et al., 2018) and CySemTag (Piao et al., 2018; Piao et al., 2017) tools, available from CorCenCC's GitHub website: <https://github.com/CorCenCC>.

The research on which this dataset, the accompanying software tools, and online corpus resources are based was funded by the UK Economic and Social Research Council (ESRC) and Arts and Humanities Research Council (AHRC) as the *Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes* (The National Corpus of Contemporary Welsh): A community driven approach to linguistic corpus construction project (Grant Number ES/M011348/1).

2 Rhagarweiniad | Introduction

2.1 Nodiadau rhagarweiniol ar y rhestri amlder

I'r rhestri amlder geiriau a lemâu a gyflwynir yma ac yn y taenlenni cysylltiedig (ar gael yn <http://doi.org/10.17035/d.2020.0120164107>), y tocynnau alffabetig yn unig a gafodd eu cyfrif tuag at gyfanswm y tocynnau yn y corpws neu mewn is-gorpws. Caewyd y categorïau canlynol o docynnau alffabetig allan o'r rhestri hefyd:

- Data wedi'u hanonymeiddio: Defnyddiwyd geiriau generig i gymryd lle gwybodaeth a all fod yn sensitif wrth anonymeiddio'r testunau mewnbyn. Lle bo modd, tagiwyd y geiriau hyn yn y corpws (fel enwb am enw benywaidd neu cyfenw) gyda'r rhan ymadrodd *Anon*.
- Nodiadau trawsgrifwyr: Yn nhrawsgrifiadau'r data llafar, cynhwysai'r trawsgrifwyr nodiadau am nodweddion llafar nad oeddynt yn eirfaol (fel pesychu, ochneidio, neu ddyllyfu gê) ac am synau cefndirol yn y recordiadau. Tynnwyd y rhain allan gan eu bod yn rhan o'r meta-destun, nid o gynnwys y corpws ei hun.
- Geiriau nad ydynt yn Gymraeg
- Enwau priod

Er nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y rhestr (sy'n cynnwys geiriau Cymraeg yn unig), mae tocynnau alffabetig fel geiriau estron ac enwau priod yn cael eu cyfrif tuag at brif gyfanswm y tocynnau yn y corpws. Felly, caiff ffigurau amllder fesul miliwn o docynnau eu cyfrifo ar sail cyfanswm nifer y tocynnau alffabetig yn y corpws.

Er mwyn creu'r rhestr hyn, cywirwyd rhai gwallau tagio treiddiol a thagiâu rhan ymadrodd amwys yn nata'r corpws â llaw. Yn ogystal, tacluswyd y ffeil ddata er mwyn dileu ambell i ddarn dieisiau (e.e. darnau o god JavaScript yn y samplau iaith electronig) nad oedd eisioes wedi'u cywiro gan prosesau awtomatig. Fel canlyniad i'r camau hyn, bydd y rhestr sampl a'r set ddata amllder lawn yn y daenlenni gysylltiedig yn amrywio i ryw raddau o restru cyffelyb pe baent yn cael eu creu o fersiwn cyhoeddus cyntaf set ddata CorCenCC (neu o unrhyw fersiwn wedi'i diweddarau y cyhoeddir yn y dyfodol).

Y rhestri amllder ar sail geiriau

Seilir rhestri C1 a C2 ar amllder geirffurfiau unigol. Dibynna pob cofnod ar ffurf ysgrifenedig tocyn yn unig. Golyga hyn fod homograffau yn cael eu grwpio gyda'i gilydd: er enghraifft, mae'r ategydd berfol *wedi* a'r arddodiad *wedi* yn cael eu cyfrif fel un cofnod geirffurf. Mae amrywiolion fel talfyriadau a gogwyddeiriau yn cael eu cyfrif ar wahân. O ganlyniad, felly, byddai gan y gair *cariad* a'i ffurf luosog *cariadon* gofnodion ar wahân yn y rhestri hyn. Yn yr un ffordd, mae'r ffurfiau wedi'u treiglo *gariad*, *chariad*, a *nghariad* i gyd yn cael eu cyfrif ar wahân i'r geirffurf *cariad*.

Mae rhestri C6 a C7–14 wedi'u seilio ar eirffurfiau yn hytrach na lemâu. Caiff amrywiolion eu gwahanu fel yn y rhestri geiriau rheolaidd. Fodd bynnag, dim ond y geirffurfiau hynny â chategoriâu rhan ymadrodd penodol sy'n cael eu cyfrif ar gyfer y rhestri hyn. Mae rhestri C7–11 i gyd yn cyfrif un rhan ymadrodd yn unig. Geiriau dosbarth agored yn unig a gynhwysir yn rhestri C6 a C12–14. Caiff unrhyw homograffau dosbarth caeedig eu gadael allan o'r cyfrif cronus a briodolir i'r geirffurfiau yn y rhestri hyn.

Y rhestri amllder ar sail lemâu

Mae'r rhestri wedi'u lemateiddio (C3 a C4) yn rhoi cyfrifon amllder ar gyfer lemâu yn hytrach na geirffurfiau. Yn y rhestri hyn, caiff amrywiolion eu grwpio gyda'i gilydd, a homograffau â rhannau ymadrodd gwahanol yn cael eu gwahanu lle bo modd. Mewn rhai achosion, golyga hyn y bydd geirffurfiau sy'n cael eu cyfrif ar wahân yn y rhestri geiriau yn cael eu grwpio gyda'i gilydd: caiff ffurfiau lluosog ac unigol enwau, er enghraifft, eu cyfrif fel eu bod yn perthyn i'r un lema. Mewn achosion eraill, bydd tocynnau a gafodd eu grwpio fel un cofnod yn rhestri geiriau yn ymddangos fel cofnodion ar wahân yn

y rhestrï o lemâu. Dyma'r achos yn bennaf o ran homograffau gyda rhannau ymadrodd gwahanol, fel *achos* (enw) ac *achos* (cysylltair). Rhestrir yr homograffau hyn gydag un amllder cyfunol yn y rhestrï amllder geirïau, ond maent yn perthyn i gofnodion ar wahân yn y rhestrï amllder lemâu.

Wrth gasglu'r rhestrï amllder lemâu, nid ydym wedi cyfrif unrhyw do-cynnau na fedrai CyTag ddadamwyso eu rhan ymadrodd. Cymerwyd hyn i ystyriaeth wrth gyfrifo'r holl ystadegau, felly gall cyfanswm y cyfrif ar gyfer unrhyw eirffurf penodol yn y rhestrï amllder geirïau fod ychydig yn uwch na'r un geirffurf ar ôl cael ei rannu'n lemâu ar wahân.

Mae rhestr C5 yn cynnwys lemâu hefyd, ond mae'n cyfrif y rhai sydd â rhan ymadrodd dosbarth agored yn unig.

2.2 Introductory notes on the frequency lists

For both the word and the lemma frequency lists presented here and in the associated spreadsheets (available at <http://doi.org/10.17035/d.2020.0120164107>), only alphabetic tokens have been counted towards the total of tokens in the corpus or in a subcorpus. All tokens and lemmas have been converted to lowercase for the purpose of generating these lists. The following categories of alphabetic tokens were also excluded from the lists:

- Anonymized data: Generic words were used to replace potentially sensitive information in anonymizing the input texts. Where possible, these words (such as *enwb* for a female name or *cyfenw* for a surname) were tagged in the corpus with the part-of-speech *Anon*.
- Transcribers' notes: In the transcripts of spoken data, transcribers included notes about non-lexical features of speech (such as coughing,

sighing, or yawning) and about background noises in the recordings. These are excluded since they are part of the meta-text, not of the corpus content proper.

- Non-Welsh words
- Proper nouns

Although they are excluded from the lists (which contain Welsh words only), alphabetic tokens such as foreign words and proper nouns are counted towards the grand total of tokens in the corpus. Figures given for frequency per million tokens are therefore calculated based on the total number of alphabetic tokens in the corpus.

In order to generate these lists, some pervasive tagging errors and ambiguous part-of-speech tags in the corpus data were manually corrected. In addition, the data file was somewhat refined in order to remove a few unwanted passages (e.g. of JavaScript code in the e-language samples) which had not already been deleted during automatic processing. These sample lists and the associated spreadsheets will therefore differ from similar lists if they were generated from the first public release of the CorCenCC dataset (or from any updated versions that are released in the future).

The word frequency lists

Lists C1 and C2 are based on the frequency of individual word-forms. Each entry relies solely on the written form of a token. This means that homographs are grouped together: for example, the preverbal particle *wedi* and the preposition *wedi* are counted as a single word-form entry. Variant forms such as abbreviations and clitics are counted separately. As a result, for example, the

words *cariad* (“love”, “lover”) and its plural form *cariadon* (“lovers”) would have separate entries in these lists. Similarly, the mutated forms *gariad*, *chariad*, and *nghariad* are all counted as separate from the word-form *cariad*.

Lists C6 and C7–14 are also based on word-forms rather than lemmas. Variant forms are separated as in the regular word lists. However, only word-forms with particular part-of-speech categories are counted for these lists. Lists C7–11 all count only a single part-of-speech. Lists C6 and C12–14 feature only open-class words. Any closed-class homographs are excluded from the cumulative count ascribed to the word-forms in these lists.

The lemma frequency lists

The lemmatized lists (C3 and C4) present frequency counts for lemmas rather than for word-forms. In these lists, variant forms are grouped together and homographs with different parts of speech are separated where possible. In some cases, this means that word-forms counted separately in the wordlists will be grouped together: plural and singular forms of nouns, for example, are counted as belonging to the same lemma. In other cases, tokens which were grouped as a single entry in the word lists will appear as separate entries in the lists of lemmas. This is primarily the case for homographs with different parts of speech, such as *achos* (noun meaning “cause”) and *achos* (conjunction meaning “because”). These homographs are listed with a single, combined frequency in the word frequency lists, but belong to separate entries in the lemma frequency lists.

In compiling the lemma frequency lists, we have not counted any tokens whose part of speech could not be disambiguated by CyTag. This has been taken into account in calculating all statistics, so the total count of a given

word-form in the word-form frequency lists may be somewhat higher than the combined total for the same word-form when split into separate lemmas.

List C5 also lists lemmas, but only counts those with an open-class part of speech.

3 Dehongli'r Rhestri | Interpreting the Lists

3.1 Dehongli'r rhestri: Cyfyngiadau posib a nodiadau rhybyddiol

Defnyddiwyd tagiwr rhan ymadrodd CyTag prosiect CorCenCC i labelu pob tocyn yn y corpws gyda gwybodaeth yn cynnwys tag rhan ymadrodd a lema. Mae gan CyTag sgoriau trachywiredd tagio a galw i gof ardderchog yn bell dros 90% (Neale et al., 2018). Eto i gyd, mae ei ddibynadwyedd yn disgyn wrth brosesu tocynnau y mae'n anodd eu dadamwysu (Neale et al., 2018). Dylid cofio hyn wrth ddehongli amlderau geiriau neu lemâu sy'n agored i gael eu cam-dagio. Mae'r crynodeb isod yn amlygu rhai meysydd lle y gall y data rhestri amllder yn y ddogfen hon a'r taenlenni cysylltiedig fod yn llai dibynadwy neu gynnwys canlyniadau a all ymddangos yn afreolaidd o ganlyniad i berfformiad y tagiwr.

Er gwaethaf ambell ragrybudd fel hyn, mae gan y data amllder ar raddfa fawr wedi'u lemateiddio yma ar gyfer Cymraeg cyfoes botensial i hwyluso dadansoddi ac ymchwilio ar lefel teulu gair, gair pen, neu fôn y gair.

Lemateiddio

Fel arfer, mae cyfrif amllder ar gyfer lemâu yn cynhyrchu rhestri sy'n llai dibynadwy na rhestri amllder geirffurfiau gan fod un yn gofyn am dagio rhan

ymadrodd trachywir a'r llall yn dibynnu a ffurf ysgrifenedig gair yn unig (Kilgarriff, 1997). Mae'n annhebygol y bydd neilltuo geirffurfiau i'r lema cywir trwy ddulliau cyfrifiadurol yn 100% gywir (Evison, 2010; O'Keeffe, McCarthy, & Carter, 2007). Yn nata CorCenCC, neiltuodd CyTag nifer o dagiau rhan ymadrodd a lema i docynnau nad oedd yn medru eu dadamwysu. Ar ben hynny, mewn rhai achosion, mae'n bosibl i docyn wedi'i ddadamwysu gael ei neilltuo i'r tag rhan ymadrodd anghywir. Cafodd CyTag anhawster arbennig gyda thocynnau fel *yn*, sydd yn digwydd yn aml ac yn anodd ei ddadamwysu (Neale et al., 2018). Mae *yn* yn gweithredu fel arddodiad, ategydd berfol, ac yn draethiadol:

- (1) *Mae Siân yn y tŷ.*
bod.PRS.3.UN Siân yn.ARDD y tŷ
- (2) *Mae Siân yn gadael.*
bod.PRS.3.UN Siân yn.ATEG.BERF. gadael
- (3) *Mae Siân yn oer.*
bod.PRS.3.UN Siân yn.TRAETH. oer

Mae'r enghreifftiau o'r defnydd o *yn* yma i gyd yn gyffredin yn y Gymraeg ac roedd yn anodd gwahanu rhyngddynt yn fanwl gywir wrth ddefnyddio CyTag. Mae unrhyw ddatblygu pellach ar CyTag yn debygol o ganolbwyntio at docynnau amllder uchel o'r fath (Neale et al., 2018).

Prosesu data

Cafodd y data yn CorCenCC eu casglu oddi wrth amrywiaeth eang o ffynonellau a'u prosesu gan ddefnyddio technegau â llaw ac wedi'u hawtomeiddio. Ni lwyddodd prosesu'r data electronig, yn benodol, i ddileu nodweddion all-destunol bob tro e.e. cod HTML a JavaScript, penynnau a throedynnau ebost, neu destun a grëwyd gan feddalwedd fel ategion WordPress. O ganlyniad,

mae'n debygol y bydd rhestr o eiriau wedi'u cymryd o'r data electronig nad ydynt yn Gymraeg (heb eu cyflwyno yma) wedi chwyddo cyfrifon y tocynnau sy'n ymddangos yn aml mewn cod datblygu gwe neu yn yr hyn sy'n cael ei alw'n destun 'haearn boeler' (testun a ailadroddir fel sy'n cael ei ddefnyddio mewn troedynnau ebost, ffurfiau gwe, bylchau sylwadau ar-lein, ac yn y blaen).

Tynnwyd darnau yn y data nad oeddynt yn Gymraeg (yn Saesneg yn bennaf) fel rhan o'r biblinell prosesu data, er na wnaed hynny gyda geiriau neu ymadroddion nad oeddynt yn Gymraeg a oedd yn cael eu defnyddio mewn disgwrs Cymraeg yn bennaf. (Lle bo modd, cafodd y rhain eu tagio gyda'r tag rhan ymadrodd "*Gwest: Gweddillol - estron*"). Felly, ar y cyfan, bydd y testun haearn boeler sydd ar ôl yn y corpws yn Gymraeg a gall y ffaith ei fod yno chwyddo'r cyfrifon am y geiriau mae'n eu cynnwys. Mae modd dadlau a ddylid ystyried hyn fel chwyddo amllder y geiriau hyn neu beidio. Yn ein barn ni, gan fod haearn boeler yn nodwedd gyson mewn cyfathrebu trwy gyfrwng cyfrifiadur, y dewis amlwg oedd ei adael yn gyfan yn y corpws. Mae'r ffaith ei bod yn bresennol yn aml yn adlewyrchu'r ffordd y mae haearn boeler yn gwthio ei hun ar ddefnyddwyr cyffredin genres trwy gyfrwng cyfrifiadur yn Gymraeg.

Cafodd y data ysgrifenedig ac electronig eu hanonymeddio'n syml trwy newid eitemau sensitif (fel enwau personol, cyfeiriadau, rhifau ffôn, ac ati) i docynnau generig (e.g. *cyfenu*, *cyfeiriad*). Nid yw'r tocynnau meta-destunol generig hyn bob amser wedi cael eu gwahanu oddi wrth ddefnyddiau go iawn o'r tocynnau yn y testunau. O ganlyniad, bydd y cyfrifon ar gyfer y geiriau hyn wedi chwyddo.

Ffurfiâu ansafonol

Mae'r ffurfiolaeth gramadeg cyfyngiadol ("constraint grammar") a ddefnyddir yn CyTag yn ystyried cyd-destun pob tocyn mae'n ei ddadansoddi fel mewnbwn er mwyn pennu'r tag rhan ymadrodd mwyaf tebygol ar gyfer y tocyn hwnnw. Yn y bôn, gallai ddadansoddi'r tocyn *yn* trwy edrych i weld a yw'r tocyn sy'n ei ddilyn yn ferf, yn ansoddair, yn enw, neu'n fannod wedi'i dilyn gan enw. Gallai set sylfaenol o reolau gramadeg cyfyngiadol i dargedu *yn* gyfarwyddo'r gramadeg i ddewis y rhan ymadrodd "arddodiad" os mai enw (neu ddilyniant o fannod + enw) yw'r tocyn nesaf, i ddewis "traethiadol" os mai ansoddair yw'r tocyn nesaf, ac i ddewis "ategydd berfol" os mai berf yw'r tocyn nesaf. Oni bai fod rheol arall yn disodli neu'n ymyrryd fel arall yn y tair rheol seml yma, dylai'r tocyn *yn* yn yr enghreifftiau a roddwyd uchod (Engh. 1–3) gael ei dagio'n gywir. Fel mae'r enghraifft hon yn dangos, mae tagio unrhyw docyn yn gywir yn dibynnu i ryw raddau ar dagio'r tocynnau sydd o'i amgylch yn gywir. Gan mai nod CyTag yw rhoi tagiau rhan ymadrodd manwl gywir ar gyfer cymaint o dagiau ag sy'n bosibl, rydym wedi ymdrechu i wneud y system yn 'ymwybodol' nid yn unig o ffurfiâu safonol tocynnau fel y rhai a geir mewn geiriaduron, ond hefyd o ffurfiâu ansafonol ac amrywiadau llafar neu ranbarthol.

Felly, cyn belled ag y bo'n rhesymol, mae CyTag yn eithaf trugarog o ran tagio sillafiadau amyriadau ansafonol tocynnau. Yn ymarferol, er enghraifft, mae defnyddwyr cyfoes y Gymraeg yn rhoi acenion yn anghyson yn enwedig mewn genres anffurfiol. (Nid oes neb, hyd y gwyddom, wedi ymchwilio i weld a yw hyn yn cael ei achosi gan anawsterau o ran dod o hyd i'r acenion priodol ar fysellfwrdd cyfrifiadur, gan ddiffyg gwybodaeth defnyddwyr am sillafiadau safonol geiriau gydag acenion, neu gan ffactorau eraill.) Oherwydd

hyn, mae CyTag yn ystyried ffurfiau gyda a heb acenion fel darlleniadau posibl wrth ddadansoddi tocyn. Golyga hyn, er enghraifft, y gall y tocyn *a* gael ei dagio'n gywir os, fel sy'n digwydd yn aml, gaiff ei ddefnyddio fel amrywiad sillafu ar yr arddodiad cyffredin *á*, yn hytrach na'r cysylltair *a*. Gan fod *á* yn achosi treigladau llaes i'r enwau sy'n ei ddilyn, mae'r enghraifft hon yn arbennig o bwysig o ran tagio'n gywir, gan fod y gramadeg cyfyngiadol yn ystyried a all y tocynnau blaenorol achosi treigladau wrth asesu darlleniadau posibl tocyn. Os yw *a* yn cael ei ddefnyddio fel amrywiad ar *á* ond yn cael ei dagio fel pe bai'n perthyn i'r lema *a*. [CYS.], ni chaiff rheolau'r gramadeg cyfyngiadol ar gyfer tocynnau sy'n dilyn sbardunau am y treigladau llaes eu gweithredu'n gywir. Eto i gyd, yn sicr, bydd y dull trugarog yma yn achosi cynnydd yn y nifer o rai tocynnau sy'n cael eu dadamwysu'n wallus. Tra byddai dehongliad caeth yn dosbarthu *dý* (lema *tý*) a *dy* (banodolyn/rhagenw, meddiannol, 2il berson unigol) fel dau docyn gwahanol, yn y bôn byddai CyTag yn ei trin nhw'n homograffig. Er bod hyn yn ddiamau yn cynyddu'r potensial am anghywirdeb ym mherfformiad CyTag, yr oedd yn angenrheidiol er mwyn rhoi cyfrif llawn am arferion ysgrifennu a sillafu defnyddwyr cyfoes y Gymraeg.

Mae'r amrywiadau tafodieithol cyffredin y mae CyTag yn ceisio cyfrif amdanynt yn cynnwys lleihau /ai/ ar ddiwedd geiriau i /a/ neu /ɛ/ ar lafar, sy'n cael ei adlewyrchu gan rai ysgrifenyddwr wrth leihau <-ai>, <-au> ac <-ae> yn orgraffyddol i <-a> neu <-e>. Pan na all adnabod gair gydag <-a> neu <-e> ar y diwedd, mae CyTag yn chwilio am yr un gair gyda'r llythyren olaf yn cael ei disodli gan <-ai>, <-au> ac <-ae>. Er enghraifft, o gael y tocyn *chware*, bydd CyTag yn chwilio am *chwarai*, *chwarau* a *chwarae*, sy'n golygu bod modd iddo briodoli'r tocyn i'r lema cywir *chwarae*. Ar wahân i amrywiadau tafodieithol, mae CyTag yn ystyried hefyd a yw tocyn anhysbys sy'n cynnwys y dilyn-

ant canol <-nn-> yn bodoli gydag <-n-> yn lle hynny. O gael y tocyn *penderfynnu*, bydd CyTag yn adnabod yn gywir sillafu ansafonol (neu wall sillafu) sy'n perthyn i'r lema *penderfynu*. Cawsom fod newid <n> am <nn> yn gyffredin ac yn wall systematig a oedd prin (os o gwbl) yn esgor ar docyn nad oedd modd adnabod ei ffurf safonol yn ddiamwys, tra bo gwallau sillafu eraill a nodwyd yn y data yn aml yn fwy anghyson neu'n esgor ar docynnau nad oedd modd eu trosglwyddo'n hawdd yn ôl i'r ffurff orgraffyddol safonol.

Ystyriaethau eraill

Caiff demonymau ac enwau ieithoedd Cymraeg eu tagio gan CyTag fel enwau cyffredin, nid enwau priod. O ganlyniad, caiff *Cymraeg* ei restru fel yr enw mwyaf aml yn y corpws. Er nad ydynt yn enwau cyffredin a bod yn fanwl gywir, mae geiriau o'r fath yn wahanol i enwau personol, enwau brandiau, a mathau eraill o enwau priod gan fod ganddynt gyfeiryddion sengl, sefydlog sydd yn hysbys yn eang i'r gymuned ieithyddol. Gellir cymharu hyn, dyweder, â'r enw personol gwrywaidd *Gareth*, a all gyfeirio at unrhyw un o nifer o bobl a all fod yn hysbys neu beidio.

Maes arall sy'n effeithio ar ddibynadwyedd y rhestri amllder yw sut mae CyTag yn prosesu dilyniannau aml-eiriau yn Gymraeg. Yn benodol, nid yw CyTag yn tagio arddodiaid aml-eiriau fel *ar gyfer* ac *er mwyn* fel unedau sengl, ond yn hytrach mae'n eu trin fel arddodiad yn cael ei ddilyn gan enw. O ganlyniad, bydd y rhestri wedi'u lemateiddio yn dangos amllder uwch i gydrannau enwol y dilyniannau hyn na'r hyn a ddisgwylid fel arall. Yr enw *cyfer*, sy'n ffurfio ail elfen *ar gyfer* yw'r wythfed lema enwol mwyaf cyffredin yn y corpws, er mai prin iawn yw'r defnydd ohono'n annibynnol. Mewn gwirionedd, mae'n annhebygol y byddai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr cyfoes y Gymraeg

yn adnabod ystyr yr enw pe bai'n cael ei ddefnyddio y tu allan i'r dilyniant *ar gyfer*. Felly mae'n rhaid dehongli'r rhestri'n ofalus, a bod yn ymwybodol o'r swyddogaethau gwahanol y gall geiriau dosbarth agored eu cyflawni mewn dilyniannau aml-eiriau Cymraeg.

3.2 Interpreting the lists: Potential limitations and cautionary notes

The CorCenCC project's CyTag part-of-speech tagger was used to label each token in the corpus with information including a part-of-speech tag and lemma. CyTag has excellent tagging precision, and recall scores well over 90% (Neale et al., 2018). Nonetheless, its reliability drops when processing tokens that are hard to disambiguate (Neale et al., 2018). This should be borne in mind when interpreting frequencies of words or lemmas which are susceptible to mis-tagging. The summary below highlights some areas in which the frequency list data in this document and the associated spreadsheets may be less reliable or may contain results which seem anomalous as a result of the tagger's performance.

Notwithstanding these caveats, this large-scale lemmatized frequency data for contemporary Welsh has potential to facilitate analysis and investigation at the word family, head word, or base word level.

Lemmatization

Calculating frequency for lemmas generally produces lists which are less reliable than word-form frequency lists, since the former require accurate part-of-speech tagging, whereas the latter rely solely on the word's written form (Kilgarriff, 1997). Assigning word-forms to the correct lemma by computational

means is unlikely to be 100% accurate (Evison, 2010; O’Keeffe et al., 2007). In CorCenCC’s data, CyTag assigned multiple part-of-speech tags and lemmas to tokens that it was unable to disambiguate. In some cases, furthermore, a disambiguated token may actually have been assigned the wrong part-of-speech tag. CyTag had particular difficulty with tokens such as *yn*, which are both frequent and hard to disambiguate (Neale et al., 2018). *Yn* functions as a preposition, a verbal particle, and a predicative particle:

- (4) *Mae Siân yn y tŷ.*
be.PRS.3.SG Siân in the house.
“Siân is in the house.”
- (5) *Mae Siân yn gadael.*
be.PRS.3.SG Siân PART.V.PRES leaving.
“Siân is leaving.”
- (6) *Mae Siân yn oer.*
be.PRS.3.SG Siân PART.PRED cold.
“Siân is cold.”

Each of these uses of *yn* is common in Welsh, and it proved difficult to distinguish accurately between them using CyTag. Any further development of CyTag is likely to focus on such high-frequency tokens (Neale et al., 2018).

Data processing

The data in CorCenCC has been collected from a wide variety of sources, and processed using both automated and manual techniques. The automatic processing of the electronic data, in particular, was not always entirely successful in removing extra-textual features such as HTML and JavaScript code, email headers and footers, or text generated by software such as WordPress plugins. As a result, it is likely that lists of non-Welsh words taken from the electronic

data (not presented here) will have inflated counts of tokens that appear often in web development code or in so-called 'boilerplate' text (repeated text such as that used in email footers, web forms, online comment boxes, and so on).

Non-Welsh passages in the data (primarily in the English language) were removed as part of the data processing pipeline, although non-Welsh words or phrases used within primarily Welsh discourse were not removed. (These have, where possible, been tagged with the part-of-speech tag *Gwest*: "Gwed-dillol - estron" / *Other - foreign*). On the whole, therefore, the boilerplate text that remains in the corpus will be in Welsh, and its presence may inflate counts for the words it contains. Whether or not this should be considered an artificial inflation of these words' frequency is open to debate. In our view, since boilerplate is a consistent feature of computer-mediated communication, leaving it intact in the corpus was the appropriate choice. Its repeated presence reflects the way in which boilerplate imposes itself on the average consumer of computer-mediated genres of Welsh.

Both the written and electronic data were anonymized simply by replacing sensitive items (such as personal names, addresses, telephone numbers, and so on) with generic tokens (e.g. *cyfemw* / 'surname', *cyfeiriad* / 'address'). These generic metatextual tokens have not always been separated from actual uses of the tokens in the texts. As a result, the counts for these words will be inflated.

Non-standard forms

The constraint grammar formalism used in CyTag considers the context of each token it analyses as input to determine the most likely part-of-speech tag for that token. In basic terms, it might analyse the token *yn* by looking at whether the following token is a verb, an adjective, a noun, or an article fol-

lowed by a noun. A basic set of constraint grammar rules to target *yn* might instruct the grammar to select the part of speech “preposition” if the following token is a noun (or a sequence of article + noun), to select “predicative particle” if the following token is an adjective, and to select “verbal particle” if the following token is a verb. If no other rules supersede or otherwise interfere with these three simple rules, the token *yn* in the examples given above (Exx. 4–6) should be correctly tagged. As this example illustrates, the correct tagging of any token is at least somewhat reliant on the correct tagging of the tokens that surround it. Since the aim of CyTag is to provide accurate part-of-speech tags for as many tokens as possible, we have attempted to make the system ‘aware’ not only of the standardized forms of tokens as found in dictionaries, but also of non-standard forms and colloquial or regional variants.

As far as is reasonable, therefore, CyTag takes a lenient approach to the tagging of non-standard variant spellings of tokens. In practice, for example, contemporary users of Welsh use accented characters inconsistently, particularly in informal genres. (Whether this is caused by difficulty accessing accented characters on a computer keyboard, by users’ imperfect knowledge of the standard spellings of words with accented characters, or by other factors has not, to our knowledge, been explored in any depth). Because of this, CyTag considers both accented and unaccented forms as possible readings when it analyses a token. This means, for example, that the token *a* can be correctly tagged when, as often happens, it is used as a spelling variant of the common preposition *â*, rather than as the conjunction *a*. Since *â* causes following nouns to undergo aspirate mutation, this example is particularly important for correct tagging, as the constraint grammar considers whether preceding tokens may cause mutation when assessing possible readings of a token. If *a* is being used

as a variant of *á*, but is tagged as though it belongs to the lemma *a*.[CONJ], the constraint grammar's rules for tokens following aspirate-mutation triggers will not be correctly activated. Nonetheless, this lenient approach will almost certainly cause an increase in incorrect disambiguation of some tokens. Whereas a strict interpretation would class *dŷ* (lemma *tŷ*; "house") and *dy* (determiner/pronoun, possessive, 2nd person singular) as two different tokens, CyTag would essentially treat them as homographic. Although this undeniably increases the potential for inaccuracy in CyTag's performance, it was necessary in order to account fully for contemporary Welsh users' writing and spelling habits.

Common dialectal variants for which CyTag attempts to account include the reduction of word-final /ai/ to /a/ or /ɛ/ in speech, reflected in the reduction of orthographic <-ai>, <-au>, and <-ae> to <-a> or <-e> by some writers. When it is unable to recognise a word with final <-a> or <-e>, CyTag searches for the same word, with the final letter replaced with each of <-ai>, <-au>, and <-ae>. For example, given the token *chware*, CyTag will search for *chwarai*, *chwarau*, and *chwarae*, enabling it to attribute the token correctly to the Welsh lemma *chwarae*. Apart from dialectal variants, CyTag also considers whether an unidentified token featuring the medial sequence <-nn-> exists with a single <-n-> instead. Given the token *penderfynnu*, CyTag will correctly identify a non-standard spelling (or spelling error) belonging to the lemma *penderfynnu* ("to decide"). We found the substitution of <nn> for <n> to be a common and systematic error, which rarely (if ever) resulted in a token whose standardized form could not be unambiguously identified, while other spelling errors identified in the data were often inconsistent or resulted in tokens that could not easily be transformed back into the standard orthographic form.

Other considerations

Welsh demonyms and language names are tagged by CyTag as common nouns, not proper nouns. As a result, *Cymraeg* ('the Welsh Language') is listed as the most frequent common noun in the corpus. Although they are not strictly common nouns, such words differ from personal names, brand names, and other types of proper noun in that they have single, stable referents which are generally widely-known to the language community. Compare this with, say, the masculine personal name *Gareth*, which can refer to any of numerous people who may or may not be well-known.

A final area affecting the reliability of the frequency lists is CyTag's processing of multiword sequences in Welsh. In particular, CyTag does not tag multiword prepositions such as *ar gyfer* ('for the purpose of', 'in preparation for') and *er mwyn* ('in order to', 'for the sake of') as single units, but rather treats them as a preposition followed by a noun. As a result, the lemmatized lists will show a higher frequency for the noun components of these sequences than would otherwise be expected. The noun *cyfer*, which forms the second element of *ar gyfer*, is the eighth most common noun lemma in the corpus, despite being used independently exceedingly rarely. In fact, it is unlikely that most users of contemporary Welsh would recognize the noun's meaning if it were used outside of the sequence *ar gyfer*. The lists must therefore be interpreted carefully, with awareness of the different functions open-class words can perform in Welsh multiword sequences.

4 Llyfryddiaeth | Bibliography

- Evison, J. (2010). What are the basics of analysing a corpus? Yn | In A. O’Keeffe & M. McCarthy (Eds.), *The Routledge handbook of corpus linguistics* (pp. 122–135). Abingdon: Routledge.
- Kilgarriff, A. (1997). Using word frequency lists to measure corpus homogeneity and similarity between corpora. Yn | In *Proceedings of the 5th ACL workshop on very large corpora*, Beijing.
- Neale, S., Donnelly, K., Watkins, G., & Knight, D. (2018). Leveraging lexical resources and constraint grammar for rule-based part-of-speech tagging in Welsh. Yn | In *Proceedings of the eleventh international conference on language resources and evaluation (LREC 2018)*, European Language Resources Association (ELRA).
- O’Keeffe, A., McCarthy, M., & Carter, R. (2007). *From corpus to classroom: Language use and language teaching*. Caergrawnt | Cambridge: Cambridge University Press.
- Piao, S., Rayson, P., Knight, D., & Watkins, G. (2018). Towards a Welsh semantic annotation system. In *Proceedings of the LREC (Language Resources Evaluation) 2018 conference*, Miyazaki, Japan.
- Piao, S., Rayson, P., Knight, D., Watkins, G., & Donnelly, K. (2017). Towards a Welsh semantic tagger: Creating lexicons for a resource poor language. Yn | In *Proceedings of the corpus linguistics 2017 conference*. Prifysgol Birmingham | University of Birmingham, DG | UK.

Atodiad | Appendix A Rhannau ymadrodd CorCenCC
The CorCenCC part-of-speech tagset

Rhan Ymadrodd POS	Tag	Disgrifiad	Description	Enghraifft Example	
Enw (Noun)	Egu	Enw gwrywaidd unigol	Noun, common masc. Singular	ci	
	Ebu	Enw benywaidd unigol	Noun, common fem. Singular	cath	
	Egll	Enw gwrywaidd lluosog	Noun, common masc. Plural	cŵn	
	Ebll	Enw benywaidd lluosog	Noun, common fem. Plural	cathod	
	Egbu	Enw gwrywaidd/benywaidd unigol		Noun, common masc./fem. Singular	meddalwedd

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engh. Ex.
Y Fannod Ben- odol (The defi- nite article)	Egbl	Enw gwrywaidd/beny- waidd lluosog	Noun, common masc./fem. Plural	arferion
	Epg	Enw priod gwrywaidd	Noun, proper, masc.	Dafydd
	Epb	Enw priod benywaidd	Noun, proper, fem.	Esyllt
	Ep	Enw priod diryw	Noun, proper, gender unk.	Instagram
	YFB	Y Fannod Benodol	Article, definite	y, yr, 'r
Arddodiad (Preposition)	Arsym	Arddodiad syml	Preposition, uninflected	ar
	Ar1u	Arddodiad rhediadol, pers. 1af. unigol	Inflected preposition, 1st pers. Singular	arnaf
	Ar2u	Arddodiad rhediadol, 2il pers. unigol	Inflected preposition, 2nd pers. Singular	arnat

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engl. Ex.
	Ar3gu	Arddodiad rhediadol, 3ydd pers. gwrywaidd unigol	Inflected preposition, 3rd pers. Masc. Singular	arno
	Ar3bu	Arddodiad rhediadol, 3ydd pers. benywaidd unigol	Inflected preposition, 3rd pers. Fem. Singular	arni
	Ar1ll	Arddodiad rhediadol, pers 1af. lluosog	Inflected preposition, 1st pers. Plural	arnom
	Ar2ll	Arddodiad rhediadol, 2il pers. lluosog	Inflected preposition, 2nd pers. Plural	arnoch
	Ar3ll	Arddodiad rhediadol, 3ydd pers. lluosog	Inflected preposition, 3rd pers. Plural	arnynt
Cysylltair (Conjunction)	Cyscyd	Cysylltair cydradd	Coordinating conjunction	a, neu
	Cysis	Cysylltair isradd	Subordinating conjunction	ers, petai
Rhifair (Numeral)	Rhifol	Rhifair - rhifolyn (0-10)	Numeral, cardinal (0-10)	saith, dau, dwy

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engl. Ex.
	Rhifold	Rhifair - rhifolyn degol (11+)	Numeral, cardinal, decimal (11+)	un deg un
	Rhifolt	Rhifair - rhifolyn traddodiadol (11+)	Numeral, cardinal, traditional (11+)	ugain, dau ar hugain, dwy ar hugain
	Rhitref	Rhifair - trefnolyn (0-10)	Numeral, ordinal (0-10)	seithfed, ped-werydd, ped-waredd
	Rhitrefd	Rhifair - trefnolyn degol (11+)	Numeral, ordinal decimal (11+)	un deg wythfed
	Rhitref	Rhifair - trefnolyn traddodiadol (11+)	Numeral, ordinal traditional (11+)	deunawfed
Ansoddair (Adjective)	Anscadu	Ansoddair unigol	Adjective, positive, singular	byr

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engl. Ex.
	Anscadbu	Ansoddair cadarnhaol benywaidd unigol	Adjective, positive, fem. Singular	ber
	Anscadll	Ansoddair cadarnhaol lluosog	Adjective, positive, plural	byrion
	Anscyf	Ansoddair cyfartal	Adjective, equative	byrred
	Anscym	Ansoddair cymharol	Adjective, comparative	byrrach
	Anseith	Ansoddair eithaf	Adjective, superlative	byrraf
Adferf (Adverb)	Adf	Adferf	Adverb	adref, felly
Berf (Verb)	Be	Berfenw	Verb noun	ariannu
	Bpresdyflu	Berf presennol/dyfodol, pers. 1af. unigol	Inflected verb, present, 1st pers. Singular	ariannaf
	Bpresdyfzu	Berf presennol/dyfodol, 2il pers. unigol	Inflected verb, present, 2nd pers. Singular	arienni

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engl. Ex.
	Bpresdyf3u	Berf presennol/dyfodol, 3ydd pers. unigol	Inflected verb, present, 3rd pers. Singular	arianna
	Bpresdyf1ll	Berf presennol/dyfodol, pers. 1af. lluosog	Inflected verb, present, 1st pers. Plural	ariannwn
	Bpresdyf2ll	Berf presennol/dyfodol, 2il pers. lluosog	Inflected verb, present, 2nd pers. Plural	ariennwch
	Bpresdyf3ll	Berf presennol/dyfodol, 3ydd pers. lluosog	Inflected verb, present, 3rd pers. Plural	ariannant
	Bpresdyfamhers	Berf presennol/dyfodol amhersonol	Inflected verb, present, im- personal	ariennir
	Bpresdyf3perth	Berf presennol/dyfodol, 3ydd pers. perthynnol	Inflected verb, present, 3rd pers. Singular relative	sy, sydd
	Bgorb1u	Berf gorberfaith, pers. 1af. unigol	Inflected verb, pluperfect, 1st pers. Singular	arianaswn

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engh. Ex.
	Bgorb2u	Berf gorberffaith, 2il pers. unigol	Inflected verb, pluperfect, 2nd pers. Singular	arianasit
	Bgorb3u	Berf gorberffaith, 3ydd pers. unigol	Inflected verb, pluperfect, 3rd pers. Singular	arianasai
	Bgorb1ll	Berf gorberffaith, pers. 1af. lluosog	Inflected verb, pluperfect, 1st pers. Plural	arianasem
	Bgorb2ll	Berf gorberffaith, 2il pers. lluosog	Inflected verb, pluperfect, 2nd pers. Plural	arianasech
	Bgorb3ll	Berf gorberffaith, 3ydd pers. lluosog	Inflected verb, pluperfect, 3rd pers. Plural	arianasent
	Bgorbambhers	Berf gorberffaith, amher- sonol	Inflected verb, pluperfect, impersonal	arianasid
	Bamhen1u	Berf amhenodol, pers. 1af. unigol	Inflected verb, imperfect, 1st pers. Singular	ariannwn

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engl. Ex.
	Bamhen2u	Berf amhenodol, 2il pers. unigol	Inflected verb, imperfect, 2nd pers. Singular	ariannet
	Bamhen3u	Berf amhenodol, 3ydd pers. unigol	Inflected verb, imperfect, 3rd pers. Singular	ariannai
	Bamhen1ll	Berf amhenodol, pers. 1af. lluosog	Inflected verb, imperfect, 1st pers. Plural	ariannem
	Bamhen2ll	Berf amhenodol, 2il pers. lluosog	Inflected verb, imperfect, 2nd pers. Plural	ariannech
	Bamhen3ll	Berf amhenodol, 3ydd pers. lluosog	Inflected verb, imperfect, 3rd pers. Plural	ariannent
	Bamhenamhers	Berf amhenodol, amher- sonol	Inflected verb, imperfect, impersonal	ariennid
	Bgorff1u	Berf gorffennol, pers. 1af. unigol	Inflected verb, past, 1st pers. Singular	ariennais

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engh. Ex.
	Bgorff2u	Berf gorffennol, 2il pers. unigol	Inflected verb, past, 2nd pers. Singular	ariennaist
	Bgorff3u	Berf gorffennol, 3ydd pers. unigol	Inflected verb, past, 3rd pers. Singular	ariannodd
	Bgorff1ll	Berf gorffennol, pers. 1af. lluosog	Inflected verb, past, 1st pers. Plural	arianasom
	Bgorff2ll	Berf gorffennol, 2il pers. lluosog	Inflected verb, past, 2nd pers. Plural	arianasoch
	Bgorff3ll	Berf gorffennol, 3ydd pers. lluosog	Inflected verb, past, 3rd pers. Plural	arianasant
	Bgorffamhers	Berf gorffennol, amhersonol	Inflected verb, past, imper-sonal	ariannwyd
	Bgorffisef	Berf gorffennol, sefydlog	Inflected verb, past, invariant	ddaru

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engl. Ex.
	Bgorch2u	Berf gorchmynnol, 2il pers. unigol	Inflected verb, imperative, 2nd pers. Singular	arianna
	Bgorch3u	Berf gorchmynnol, 3ydd pers. unigol	Inflected verb, imperative, 3rd pers. Singular	arianned
	Bgorch1ll	Berf gorchmynnol, pers. 1af. lluosog	Inflected verb, imperative, 1st pers. Plural	ariannwn
	Bgorch2ll	Berf gorchmynnol, 2il pers. lluosog	Inflected verb, imperative, 2nd pers. Plural	ariennwch
	Bgorch3ll	Berf gorchmynnol, 3ydd pers. lluosog	Inflected verb, imperative, 3rd pers. Plural	ariannt
	Bgorchamhers	Berf gorchmynnol, amher-sonol	Inflected verb, imperative, impersonal	arianner
	Bdibdyf1u	Berf dibynnol dyfodol, pers. 1af. unigol	Inflected verb, subjunctive, 1st pers. Singular	ariannwyf

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engh. Ex.
	Bdibdyf2u	Berf dibynnol dyfodol, 2il pers. unigol	Inflected verb, subjunctive, 2nd pers. Singular	ariennych
	Bdibdyf3u	Berf dibynnol dyfodol, 3ydd pers. unigol	Inflected verb, subjunctive, 3rd pers. Singular	arianno
	Bdibdyf1ll	Berf dibynnol dyfodol, pers. 1af. lluosog	Inflected verb, subjunctive, 1st pers. Plural	ariannom
	Bdibdyf2ll	Berf dibynnol dyfodol, 2il pers. lluosog	Inflected verb, subjunctive, 2nd pers. Plural	ariannoch
	Bdibdyf3ll	Berf dibynnol dyfodol, 3ydd pers. lluosog	Inflected verb, subjunctive, 3rd pers. Plural	ariannont
	Bdibdyfamhers	Berf dibynnol dyfodol, amhersonol	Inflected verb, subjunctive, impersonal	arianner
	Bamod1u	Berf amodol, pers. 1af. unigol	Verb, conditional, 1st pers. Singular	byddwn

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engl. Ex.
	Bamod2u	Berf amodol, 2il pers. unigol	Verb, conditional, 2nd pers. Singular	byddit, byd-det
	Bamod3u	Berf amodol, 3ydd pers. unigol	Verb, conditional, 3rd pers. Singular	byddai
	Bamod1ll	Berf amodol, pers. 1af. lluosog	Verb, conditional, 1st pers. Plural	byddem
	Bamod2ll	Berf amodol, 2il pers. lluosog	Verb, conditional, 2nd pers. Plural	byddech
	Bamod3ll	Berf amodol, 3ydd pers. lluosog	Verb, conditional, 3rd pers. Plural	byddent, bydden
	Bamodamhers	Berf amodol, amhersonol	Verb, conditional, imper-sonal	byddid
Rhagenw (Pronoun)	Rhapers1u	Rhagenw personol pers. 1af. unigol	Pronoun, personal, 1st pers. Singular	mi, myfi

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engl. Ex.
	Rhapers2u	Rhagenw personol, 2il pers. unigol	Pronoun, personal, 2nd pers. Singular	ti, tydi
	Rhapers3gu	Rhagenw personol, 3ydd pers. gwrywaidd unigol	Pronoun, personal, 3rd pers. Masc. Singular	ef, efe
	Rhapers3bu	Rhagenw personol, 3ydd pers. benywaidd unigol	Pronoun, personal, 3rd pers. Fem. Singular	hi, hyhi
	Rhapers1ll	Rhagenw personol, pers. 1af. lluosog	Pronoun, personal, 1st pers. Plural	ni, nyni
	Rhapers2ll	Rhagenw personol, 2il pers. lluosog	Pronoun, personal, 2nd pers. Plural	chi, chwychwi
	Rhapers3ll	Rhagenw personol, 3ydd pers. lluosog	Pronoun, personal, 3rd pers. Plural	hwy, hwynt-hwy
	Rhadib1u	Rhagenw dibynnol, pers. 1af. unigol	Pronoun, dependent, 1st pers. Singular	fy, 'm

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engl. Ex.
	Rhadib2u	Rhagenw dibynnol, 2il pers. unigol	Pronoun, dependent, 2nd pers. Singular	dy, 'th
	Rhadib3gu	Rhagenw dibynnol, 3ydd pers. gwrywaidd unigol	Pronoun, dependent, 3rd pers. Masc. Singular	ei, 'i
	Rhadib3bu	Rhagenw dibynnol, 3ydd pers. benywaidd unigol	Pronoun, dependent, 3rd pers. Fem. Singular	ei, 'i
	Rhadib1ll	Rhagenw dibynnol, pers. 1af. lluosog	Pronoun, dependent, 1st pers. Plural	ein, 'n
	Rhadib2ll	Rhagenw dibynnol, 2il pers. lluosog	Pronoun, dependent, 2nd pers. Plural	eich, 'ch
	Rhadib3ll	Rhagenw dibynnol, 3ydd pers. lluosog	Pronoun, dependent, 3rd pers. Plural	eu, 'u
	Rhamedd1u	Rhagenw meddiannol, pers. 1af. unigol	Pronoun, possessive, 1st pers. Singular	eiddof

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engl. Ex.
	Rhamedd2u	Rhagenw meddiannol, 2il pers. unigol	Pronoun, possessive, 2nd pers. Singular	eiddot
	Rhamedd3gu	Rhagenw meddiannol, 3ydd pers. gwrywaidd unigol	Pronoun, possessive, 3rd pers. Masc. Singular	eiddo
	Rhamedd3bu	Rhagenw meddiannol, 3ydd pers. benywaidd unigol	Pronoun, possessive, 3rd pers. Fem. Singular	eiddi
	Rhamedd1ll	Rhagenw meddiannol, pers. 1af. lluosog	Pronoun, possessive, 1st pers. Plural	eiddom
	Rhamedd2ll	Rhagenw meddiannol, 2il pers. lluosog	Pronoun, possessive, 2nd pers. Plural	eiddoch
	Rhamedd3ll	Rhagenw meddiannol, 3ydd pers. lluosog	Pronoun, possessive, 3rd pers. Plural	eiddynt
	Rhacys1u	Rhagenw cysylltiol pers. 1af. unigol	Pronoun, conjunctive, 1st pers. Singular	minnau

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engl. Ex.
	Rhacys2u	Rhagenw cysylltiol, 2il pers. unigol	Pronoun, conjunctive, 2nd pers. Singular	tithau
	Rhacys3gu	Rhagenw cysylltiol, 3ydd pers. gwrywaidd unigol	Pronoun, conjunctive, 3rd pers. Masc. Singular	yntau
	Rhacys3bu	Rhagenw cysylltiol, 3ydd pers. benywaidd unigol	Pronoun, conjunctive, 3rd pers. Fem. Singular	hithau
	Rhacys1ll	Rhagenw cysylltiol, pers. 1af. lluosog	Pronoun, conjunctive, 1st pers. Plural	ninnau
	Rhacys2ll	Rhagenw cysylltiol, 2il pers. lluosog	Pronoun, conjunctive, 2nd pers. Plural	chithau
	Rhacys3ll	Rhagenw cysylltiol, 3ydd pers. lluosog	Pronoun, conjunctive, 3rd pers. Plural	hwythau
	Rhagof	Rhagenw gofynnol	Pronoun, interrogative	pa, pwy, ble, beth

Rh. Ym. POS	Tag	Disg.	Desc.	Engl. Ex.
	Rhadangg	Rhagenw dangosol gwry-waidd	Pronoun, demonstrative, masc.	hwn
	Rhadangb	Rhagenw dangosol benywaidd	Pronoun, demonstrative, fem.	hon
	Rhadangd	Rhagenw dangosol diryw	Pronoun, demonstrative, neutral.	hyn
	Rhadangll	Rhagenw dangosol lluosog	Pronoun, demonstrative, pl.	rhain
	Rhaperth	Rhagenw perthynol	Pronoun, relative	a, y
